**CYD-BWYLLGOR CRAFFU DINAS-RANBARTH BAE ABERTAWE**

**(Remotely via Teams)**

<u>**Aelodau sy'n Bresennol:**</u> <u>**Dydd Mawrth, 9 Tachwedd 2021**</u>

| | |
|---|---|
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd S.Rahaman** |
| **Cynghorwyr**: | A.Llewelyn, S.E.Freeguard, P.Downing, J.Curtice, M.Evans, J.Adams, T.Baron, G.Morgan, D.Price a/ac J.Jones |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | M.Shaw, J.Burnes, G.Jones a/ac A.Thomas |

---

1. **<u>CROESO A GALW'R RHESTR</u>**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **<u>DATGANIADAU O FUDDIANNAU</u>**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

3. **<u>CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD</u>**

Nid oedd unrhyw gyhoeddiadau.

4. **<u>COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL</u>**

Eitem 8: Dywedodd yr aelodau eu bod wedi gofyn yn y cyfarfod a oedd y 102 o swyddi yn ymwneud â'r Egin yn swyddi newydd neu a gawsant eu trosglwyddo o ranbarth arall? Gofynnodd yr aelodau hefyd am eglurhad ar yr eitem hon.

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 20 Gorffennaf 2021 fel cofnod cywir gyda'r diwygiad uchod.

5. **ISADEILEDD DIGIDOL**

Rhoddodd Gareth Jones, Arweinydd Prosiect dros Isadeiledd Digidol, gyflwyniad byr i'r aelodau. Mae'r rhaglen yn ymwneud â buddsoddi yng nghysylltedd y rhanbarth. Mae cysylltedd yn sail i agweddau mawr ar fywyd pobl gan gynnwys agweddau cymdeithasol, lles a busnes. Rhagwelir y bydd buddsoddiad o £55 miliwn yn y rhaglen dros y 5 mlynedd nesaf. Mae hyn yn cynnwys grant y Fargen Ddinesig gwerth £25 miliwn, £13.5 miliwn o gyllid gan y sector cyhoeddus a buddsoddiad o £16.5 miliwn gan y sector preifat.

Nod y prosiect yw sicrhau darpariaeth gigabeit 100% ar gyfer pob eiddo preswyl a busnes yn y rhanbarth. Mae'r amcanion lefel uchel yn cynnwys y dylai'r prosiect fod yn gatalydd ar gyfer buddsoddi mewn isadeiledd digidol rhanbarthol ac ysgogi a hwyluso buddsoddiad yn y sector preifat.

Mae'r £55 miliwn wedi'u rhannu dros bum mlynedd ar draws tair ffrwd waith prosiect: gwledig, lleoedd cysylltiedig a rhwydwaith diwifr genhedlaeth nesaf. Gwariant y prosiect ar gyfer pob un o’r tair ffrwd waith yw £25.5miliwn, £20miliwn a £9miliwn yn y drefn honno.

Mae'r ffrwd waith wledig yn ymwneud â mynd i'r afael â bylchau mewn cysylltedd. Mae lleoedd cysylltiedig yn ymwneud â chysylltedd o'r radd flaenaf mewn parthau twf economaidd ac mae'r rhwydwaith diwifr genhedlaeth nesaf yn cynnwys nifer o ymyriadau ynghylch mabwysiadu 5G yn gynnar.

Rhoddodd Mr Jones ragor o fanylion am y ffrydiau gwaith unigol. Mae'r ffrwd wledig yn cynnwys caffael isadeiledd ffibr all drosglwyddo data ar gyfradd gigabeit. Nodwyd bod hon yn strategaeth sydd wedi'i defnyddio'n llwyddiannus ar draws rhai o'r rhanbarthau sydd â'r cysylltiadau gorau yn y DU. Mae'n golygu buddsoddi yn yr asedau amrywiol sy'n eiddo i gyrff cyhoeddus ar draws y rhanbarth. Bydd hyn wedyn yn annog buddsoddi mewn adeiladau ac ardaloedd cyfagos etc. Gallai hyn ddenu buddsoddiad preifat.

Mae rhaglen cymorth ac ymgysylltu cymunedol sy'n gweithio gyda busnesau lleol i helpu i ddatblygu technoleg yn yr ardaloedd o'r rhanbarth sydd â'r gwasanaeth gwaethaf a'r ardaloedd mwyaf gwledig. Byddant yn eu cynorthwyo i gael mynediad at ffrydiau ariannu.

Mae nifer o ymyriadau yng nghefn gwlad. Nid oes un gwariant prosiect unigol. Yr eitem fwyaf yw caffael isadeiledd ffibr all drosglwyddo data ar gyfradd gigabeit ar gyfer safleoedd hybiau’r sector cyhoeddus. Mae hwn yn ddull sydd wedi cael ei ddefnyddio'n llwyddiannus ar draws y rhannau o'r wlad sydd â'r cysylltiadau gorau. Bydd y broses gaffael yn canolbwyntio ar asedau y mae'r sector cyhoeddus yn berchen arnynt. Gall cael cydymffurfiaeth cymorth gwladwriaethol llawn i gaffael band eang ar gyfer eiddo preswyl gymryd blynyddoedd. Mae Llywodraeth y DU yn argymell defnyddio asedau'r sector cyhoeddus. Drwy fuddsoddi mewn adeiladu cysylltedd ffibr ar draws asedau ar draws y rhanbarth, mae hyn yn cynyddu'r potensial ar gyfer buddsoddiad pellach mewn safleoedd adeiladu cyfagos, adeiladau masnachol etc. Gallai hyn ddenu buddsoddiad gan y sector preifat ar ben hynny. Ystyrir safleoedd hybiau fel unrhyw safle cyhoeddus y mae angen cysylltedd arnynt.

Bydd yr elfen wledig yn cynnwys rhaglen cymorth ac ymgysylltu cymunedol a fydd yn helpu i wella cysylltedd yn yr ardaloedd o'r rhanbarth sydd â'r gwasanaeth gwaethaf yn yr ardaloedd mwyaf gwledig, gan eu helpu i fanteisio ar ffrydiau ariannu yn y dyfodol a rhai presennol.

Mae Prosiect Gigabeit yn cynnwys gweithio gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar gyfer buddsoddiad allanol. Nod y Fargen Ddinesig yw cyflymu ei buddsoddiad cyn gynted â phosib yn y rhanbarth.

Mae elfen olaf yr elfen wledig yn gysylltiedig â Cyflymu Cymru 2 sy'n dod i ben ym mis Mehefin 2022. Mae'n golygu buddsoddiad o £9.2m ar draws y rhanbarth sy'n cysylltu 8,000 o fangroedd.

Mae Lleoedd Cysylltiedig yn ymwneud â rhannau trefol o'r rhanbarth o ran darpariaeth ffibr gigabeit. Bydd hyn yn gweithredu yn ôl yr un broses gaffael â'r ardaloedd gwledig a bydd yn defnyddio safleoedd hybiau presennol. Bydd dwythell bresennol y sector cyhoeddus yn cael ei hailddefnyddio. Bydd y prosiect yn ceisio masnacheiddio'r rhwydwaith dwythell.

Mae buddsoddiad hefyd yn cael ei wneud yn y rhwydwaith ffibr cefnffyrdd sy'n ceisio defnyddio cefnffyrdd presennol o hen Bont Hafren i orllewin Cymru.

Cysylltedd di-wifr y genhedlaeth nesaf yw'r lleiaf o'r tair ffrwd waith. Un elfen yw creu amodau, polisïau a gweithdrefnau ar gyfer cyflwyno isadeiledd di-wifr y genhedlaeth nesaf.
Yr ail elfen yw creu cofrestr asedau digidol. Mae hyn yn golygu manteisio ar yr asedau sy'n eiddo cyhoeddus a'u cynnig i'r farchnad telathrebu i helpu i ddatblygu a darparu 5G a 4G ar draws y rhanbarth.

Mae gan y prosiect Isadeiledd Digidol nifer o dargedau rhaglen: GYC o £318m dros 15 o flynyddoedd, cadernid ychwanegol i safleoedd hybiau sector cyhoeddus â blaenoriaeth, adeiladu isadeiledd sy'n addas ar gyfer gigabeit ar draws y rhanbarth, cyflymu'r defnydd o gysylltedd gigabeit cyflym a dibynadwy ar draws y rhanbarth. Mae sawl mantais i'r rhaglen. Fodd bynnag, cydnabyddir bod isadeiledd a chysylltedd yn ddiystyr ar ei ben ei hun, mae'n bwysig ystyried sut y caiff ei ddefnyddio o fewn y gymuned hefyd.

Rhoddwyd amlinelliad i'r aelodau o gynnydd y prosiect hyd yma, a amlinellwyd hefyd yn yr adroddiad ysgrifenedig a ddosbarthwyd gyda'r agenda.

Darparwyd ffigurau sy'n ymwneud â chysylltedd gigabeit yn y rhanbarth: Sir Benfro 8%, Sir Gaerfyrddin 32%, Castell-nedd Port Talbot 63%, Abertawe 72%. Fodd bynnag, nid cysylltedd gigabeit yw'r ffigurau strategol o ran y gwariant. Mae'r amcanion strategol o ran gwariant yn gysylltiedig â ffibr llawn. Mae hyn yn ymwneud â diogelu isadeiledd band eang ffibr llawn ar gyfer y dyfodol. Bydd hyn yn gwasanaethu'r rhanbarth am o leiaf yr 20-30 o flynyddoedd nesaf. Gellir cymharu ffibr llawn â rhwydwaith ffyrdd a fydd yn sail i economi'r rhanbarth.

Amlinellodd Mr Jones yn fyr y trefniadau llywodraethu ar gyfer y prosiect.

Mae cofnod risgiau manwl ar gyfer y prosiect. Tynnwyd sylw'r aelodau at dair o'r risgiau â'r sgoriau uchaf. Mae'r un cyntaf yn ymwneud â rheoli cymhorthdal. Cytunwyd ar ddull buddsoddi sy'n cydymffurfio â rheoli cymhorthdal. Mae hyn yn lleihau'n sylweddol y risg o fuddsoddi ar gyfer y rhanbarth a'r sector cyhoeddus. Penodwyd arbenigwyr allanol i arwain y prosiect drwy gaffaeliadau.

Yr ail risg yw Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus (PSBA) – rhwydwaith sector cyhoeddus Cymru. Yn ei hanfod, mae'n rhwydwaith band eang a arweinir gan Lywodraeth Cymru sy'n

ymwneud â sut mae partneriaid y sector cyhoeddus yng Nghymru yn siarad â'i gilydd ac yn rhannu data. Mae'n hanfodol bod unrhyw safleoedd canolfannau a brynir gan y fargen yn gallu cario a chynnal traffig PSBA. Mae rheolwyr technegol PSBA yn gweithio gyda'r tîm ar ymyriadau i leihau'r risg hon.

Y drydedd risg yw adnodd y sector cyhoeddus. Roedd angen recriwtio arbenigwyr allanol i gaffael a chyflwyno rhai o'r gweithgareddau. Mae hefyd yn ymwneud â COVID-19 ac yn gyffredinol y pwysau ar adnoddau'r sector cyhoeddus a allai rwystro eu gallu i gynorthwyo'r fargen.

Ar hyn o bryd mae 23 o risgiau byw yn gysylltiedig â'r prosiect.

Amlinellodd Mr Jones y camau nesaf ar gyfer y prosiect.

Holodd yr aelodau pam yr oedd Bargen Ddinesig Bae Abertawe y tu ôl i rannau eraill o'r DU a Chymru o ran cynnal y prosiect hwn? Mae'r rhan fwyaf ohoni'n gysylltiedig â lleoliad ffisegol a dwysedd y boblogaeth. Roedd cynnydd yn cael ei wneud i symud hyn yn ei flaen.

Cadarnhawyd bod y Rhaglen Isadeiledd Digidol yn rhaglen 5 mlynedd. Portffolio 15 mlynedd yw portffolio'r fargen gyffredinol. Mae llywodraeth y DU wedi cyflymu'r cyllid dros 10 mlynedd, ond mae Llywodraeth Cymru wedi parhau â'u rhaglen ariannu 15 mlynedd.

Nodwyd bod cysylltedd da yn hanfodol i lawer o'r cynlluniau eraill o fewn y portffolio. Gofynnodd yr aelodau am sicrwydd y gellid cyflawni'r prosiect yn llwyddiannus o fewn yr amserlenni a nodwyd. Rhoddodd Mr Jones sicrwydd i'r aelodau eu bod yn gweithio i ddulliau profedig hysbys o ran methodoleg rheoli portffolio ac o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt, a amlinellir yn yr achos busnes a gymeradwywyd gan y Llywodraeth. Mae'r holl waith cynllunio prosiectau rhaglen amrywiol ar waith. Hefyd, dyfarnwyd statws oren/gwyrdd i'r prosiect fel rhan o'r adolygiad allanol o ran hyder cyflwyno.

Er nad yw'r prosiect yn darparu'n uniongyrchol i breswylwyr a theuluoedd, cydnabuwyd y bydd y prosiect yn darparu ffibr i safleoedd canolfannau a fydd yn golygu ei fod mor agos at breswylwyr a theuluoedd â phosib. Yn ogystal, bydd y prosiect yn defnyddio rhywfaint o'i gyllid i alluogi cymunedau i gael gafael ar ffynonellau cyllid eraill i gysylltu’r ffibr â'u heiddo preswyl.

Holodd yr aelodau sut y bydd dealltwriaeth o'r prosiect yn cael ei hyrwyddo? Cadarnhaodd swyddogion eu bod yn gweithio'n agos gyda chwmnïau telathrebu sy'n ymwybodol o'r prosiect a'i nodau. Mae hyrwyddo datganiadau i'r wasg yn rhan fawr o'r cynllun i sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r datblygiadau sydd ar y gweill yn y rhanbarth. Mae'r prosiect hefyd yn gweithio'n agos gyda phrosiectau eraill y Fargen Ddinesig.

Pwysleisiodd yr aelodau'r pwysigrwydd bod gan dimau economaidd bob awdurdod ddealltwriaeth lawn o'r prosiect. Hysbyswyd yr aelodau y byddai swyddogion yn cael eu hymgorffori ym mhob un o'r pedwar awdurdod o fewn yr adrannau economaidd/adfywio er mwyn sicrhau bod cysylltedd yn cael ei hyrwyddo'n ddigonol o fewn y rhanbarth. Pwysleisiwyd pwysigrwydd ymgysylltu â chymunedau gan swyddogion. Mae pwysigrwydd gwybodaeth leol o fewn y pedwar rhanbarth hefyd yn hollbwysig i lwyddiant y prosiect hwn.

O ran elfen gigabeit y prosiect, mae trafodaethau'n parhau gyda'r Llywodraeth ganolog o ran pwy fydd yn arwain y prosiect ym mhob un o'r gwledydd datganoledig. Pwysleisiodd swyddogion eu hymrwymiad i weithio gyda phwy bynnag a nodir i fwrw ymlaen â'r eitem hon gan eu bod yn dymuno sicrhau bod buddsoddiad yn cael ei wneud cyn gynted â phosib.

Holodd yr aelodau am nifer y safleoedd hybiau ar draws y pedwar rhanbarth ac a fyddant yn cael eu rhannu'n gyfartal. Bydd safleoedd yn debygol o gael eu rhannu'n gyfartal. Wrth gymharu'r pedwar rhanbarth mae ardaloedd sydd wedi'u cysylltu'n well, fodd bynnag, pan gaiff hyn ei gymharu â'r dinasoedd sydd â'r cysylltiad orau ar draws y DU, nid yw'r cysylltedd yn wych. Mae'n bwysig bod cysylltedd da yn cael ei gyflawni ar draws pob rhanbarth.

Nododd yr aelodau uchelgais flaenorol i fod ar lwyfan byd-eang o ran cysylltedd. Er bod swyddogion yn gadarnhaol wrth nodi y gallai Abertawe a'r ardaloedd trefol cyfagos ddod yn un o'r dinasoedd cysylltiedig gorau yng Nghymru ac efallai gellir ei hystyried o fewn llond llaw o'r dinasoedd cysylltiedig gorau yn y DU, nodwyd na fyddai'r cyllid o'r Fargen Ddinesig yn unig yn cyflawni hyn. Mae'n bwysig bod y cyllid hwn yn cael ei defnyddio i sicrhau bod buddsoddiad parhaus o fewn y rhanbarth er mwyn parhau i wella cysylltedd.

Codwyd yr anghysondebau o ran y cynllun talebau a chydnabuwyd y diffiniad o'r hyn sy'n gyfystyr â 'busnes'.

Holodd yr aelodau am y trefniadau llywodraethu ar gyfer y prosiect. Cadarnhawyd bod y gofynion angenrheidiol ar waith. Mae hyn yn cynnwys Uwch Swyddog Cyfrifol, Bwrdd Isadeiledd Digidol, y Cylch Gorchwyl gofynnol a'r cofnodion a chamau gweithredu a gofnodwyd. Cadarnhaodd swyddogion eu bod wedi cael eu hasesu ar drefniadau llywodraethu fel rhan o adolygiad allanol y llynedd. Cadarnhaodd swyddogion y trefniadau ar lefel portffolio.

Cadarnhawyd mai'r £16.5 miliwn gan y sector preifat yw'r hyn y bydd y prosiect yn ceisio'i ddefnyddio fel rhan o'r caffaeliadau a fydd yn cael eu cynnal. Dywedodd swyddogion nad oedd yr arian hwn wedi'i sicrhau hyd yma.

Diolchodd yr aelodau i Mr Jones am ei gyflwyniad ac am fynychu'r cyfarfod.

## 6. <u>EITEMAU BRYS</u>

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**